Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Y Fali
# Y Fali
# Ynys Môn
# LL65 3EU

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymuned Y Fali

Lleolir Ysgol Gymuned Y Fali ar gyrion y pentref oddeutu dwy filltir o Gaergybi ym Môn. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 94 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 13 disgybl meithrin rhan-amser. Addysgir y disgyblion mewn pedwar dosbarth cymysg eu hoedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn is na'r canran cenedlaethol. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod 31% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol o 21% ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofalaeth yr awdurdod.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Mai 2011 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos gofalgar a chynhwysol i'w weld ymhob agwedd o waith yr ysgol.  Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn ofalgar iawn o'i gilydd.  Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.  Mae agweddau rhan fwyaf y disgyblion tuag at eu dysgu eu hunain yn gadarn.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu bron pob disgybl yn gryfder ar draws yr ysgol.  Maent yn ddysgwyr annibynnol, sy'n cymhwyso a defnyddio eu medrau i safon uchel iawn erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a symbylus yn llwyddiannus sy'n datblygu unigolion i fod yn ddysgwyr hyderus a chreadigol.  Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn darparu arweiniad strategol clir i waith yr ysgol.  Mae ganddynt weledigaeth gadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu symbylus ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu Cymraeg

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn strategaeth a phenderfyniadau'r ysgol

A3 Gwneud defnydd mwy effeithiol o system olrhain cynnydd disgyblion

A4 Sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael â'r materion diogelu ynglŷn â'r safle

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn rheolaidd ar draws ystod o feysydd dysgu.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau trawsieithu rhan fwyaf y disgyblion o safon uchel.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae ychydig o ddisgyblion sydd yn fwy abl yn trafod cynnwys storïau yn fanwl gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol o'r testun. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau yn naturiol yn eu gwaith, er enghraifft wrth lunio portread o fôr-leidr.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd gan ddefnyddio geirfa ymestynnol Saesneg. Enghraifft nodedig o hyn yw eu cyflwyniadau bywiog i ddenu ymwelwyr ar wyliau i wlad yr Aifft fel rhan o waith thema'r dosbarth. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg ychydig iawn o ddisgyblion wedi datblygu cystal. Mae diffyg geirfa a chystrawen chwithig yn amharu ar hyder ychydig iawn o ddisgyblion i gyfathrebu'n hyderus mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae llawer yn darllen yn briodol yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth olrhain bywyd a gwaith y Tuduriaid. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau'n hyderus yn y ddwy iaith. Mae gwaith ysgrifenedig Saesneg mwyafrif o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn gadarn dda. Maent yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm. Enghraifft o hyn yw eu gwerthusiad o waith gwyddonol a dylunio a thechnoleg yn seiliedig ar y thema Pontydd. Fodd bynnag, nid yw safonau ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion wedi datblygu'n ddigon cadarn yn y Gymraeg.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a data. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn effeithiol a'i chyflwyno ar ffurf graffiau amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd i safon uchel mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth

lunio gweithgaredd mentergarwch. Yma, mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhifedd i safon uchel iawn, wrth iddynt gyfrifo cost ac elw a wnaed o'u gweithgaredd yn hyderus.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) bron pob disgybl yn gryfder ar draws yr ysgol. Maent yn ddysgwyr annibynnol, sy'n cymhwyso a defnyddio eu medrau i safon uchel iawn erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau annibynnol, er enghraifft wrth fewngofnodi a defnyddio amrediad o raglenni sy'n cyfoethogi'r dysgu yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â pha offer i'w ddefnyddio i gyflawni tasgau penodol. Ar frig yr ysgol, mae bron pob disgybl yn cymhwyso eu medrau TGCh yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Maent yn gwneud defnydd annibynnol o apiau amrywiol, ac yn creu cyflwyniadau aml gyfrwng o safon uchel iawn. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwaith amlgyfrwng wrth gyfansoddi a recordio cân mewn partneriaeth ag ysgol yn Siapan.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae dealltwriaeth bron pob disgybl am bwysigrwydd yfed dŵr, bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gadarn. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n effeithiol mewn ystod briodol o weithgareddau corfforol, er enghraifft nofio, cyfeiriannu a chystadlu mewn gemau cyfeillgar ag ysgolion y dalgylch. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd ac fe atgyfnerthir hyn yn llwyddiannus iawn mewn cyflwyniadau amlgyfrwng.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus wrth fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Fodd bynnag, cyfyng yw eu rôl yng ngwaith a phenderfyniadau'r ysgol.

Mae agweddau rhan fwyaf y disgybion tuag at eu dysgu eu hunain yn gadarn. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau'n ddiwyd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o ddisgyblion. Mae'r disgyblion yn cefnogi dysgu ei gilydd yn hynod effeithiol wrth drafod, gwerthuso a chynnig sylwadau adeiladol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr medrus, hyderus ac annibynnol o oed cynnar. Ar frig yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth aeddfed o'u cyrhaeddiad a'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn elfen nodedig ym mhen uchaf yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o amrediad o ddulliau dysgu sy’n sicrhau bod bron pob disgybl yn ymroi’n llwyr yn eu gwersi. Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy’n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus a’u datblygu’n unigolion hyderus a chreadigol. Mae athrawon yn defnyddio cwestiynu penagored yn llwyddiannus er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol. Maent yn gosod amcanion clir ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses o greu a chytuno meini prawf llwyddiant. O ganlyniad, mae llawer o’r disgyblion yn cymryd rôl gynyddol yn eu dysgu.

Mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig cadarn iawn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Mewn dosbarthiadau lle mae’r addysgu o safon uchel iawn, mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion ddatblygu medrau meddwl yn annibynnol mewn ystod eang o gyd-destunau go iawn ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddatrys problemau ynglŷn â chynllunio pontydd ym Blwyddyn 5 a 6 ac wrth ystyried anghenion swydd fel môr-leidr ym Blwyddyn 1 a 2.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog iawn. Mae’r athrawon yn sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd yn drwyadl, gan sicrhau lefel briodol o her. O ganlyniad, mae medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu’n gadarn.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio’n llawn. Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau’r ysgol, gan gynnwys ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi eu hymgorffori’n gadarn yng nghynlluniau gwaith yr ysgol. Mae’r athrawon yn creu cynlluniau manwl sy’n sicrhau bod y medrau’n cael eu datblygu’n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. Mae’r athrawon wedi ymgorffori disgwyliadau’r fframwaith cymhwysedd digidol yn fedrus. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn hyrwyddo defnydd rheolaidd o’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn llawn. O’r herwydd, nid yw medrau llafar ac ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion wedi datblygu hyd eithaf eu gallu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol strategaethau pwrpasol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion. Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda gyda nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol. Mae’r gweithdrefnau hyn yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at yr ethos gofalgar a chynhwysol sy’n bodoli yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn i adnabod anghenion disgyblion. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu priodol, sy’n cael ei werthuso’n rheolaidd. Mae’r cynlluniau’n cael eu gweithredu’n effeithiol gan yr athrawon a’r cymorthyddion o fewn y gwersi sy’n sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion sy'n mesur cyrhaeddiad yn erbyn eu targedau yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hon yn llwyddiannus er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr yn ddigon miniog er mwyn sicrhau bod ymyrraeth yn cael yr effaith orau. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o'r deilliannau asesu ar draws y pynciau craidd a'r meysydd dysgu, er mwyn cynllunio'r camau nesaf mewn cynlluniau wythnosol. Mae hyn yn sicrhau bod y medrau'n cael eu datblygu'n gadarn. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder mawr; fodd bynnag, mae mân bryderon ynghylch y safle angen sylw ar frys.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddylanwadu ar elfennau o waith yr ysgol, er enghraifft i gynnig syniadau ar ddechrau'r themâu ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion fod yn rhan o benderfyniadau strategol yr ysgol yn llai datblygedig.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth a'r tîm rheoli yn darparu arweiniad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Mae'r tîm rheoli a holl staff yr ysgol yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus trwy weithredu ar y gwerthoedd hyn yn barhaus.

Mae'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad allweddol i ddatblygiad yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol gan y pennaeth drwy adroddiadau cynhwysfawr. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol tros gyfnod ac yn eu hyrwyddo i drafod cynnydd disgyblion a herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad. Maent yn craffu ar waith disgyblion, yn arsylwi gwersi ac yn derbyn gwybodaeth am gynnydd yn erbyn blaenoriaethau cyfredol yr ysgol. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol wedi datblygu ei rôl fel ffrind beirniadol yn llawn yn enwedig wrth arfarnu a sicrhau gwelliant..

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang. Mae gan arweinwyr wybodaeth drylwyr am safonau dysgu ac addysgu ac maent yn gwerthuso perfformiad yr ysgol yn fanwl. Trwy graffu ar gynlluniau, gwaith disgyblion, ac arsylwadau gwersi, maent yn dod i farn deg a chywir ynglŷn â safonau cyfredol yr ysgol ac adnabod agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth TGCh ar draws yr ysgol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn gadarn, yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion athrawon unigol. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog i staff gymryd rhan mewn, ac arwain, gweithgorau a

chymunedau dysgu proffesiynol yn lleol ac yn ehangach. Mae hyn, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol ar safonau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion. Mae perthynas agos a gwerthfawr yn bodoli gydag ysgolion y dalgylch, er enghraifft wrth gymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cysondeb yn asesiadau'r ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gryfderau staff er mwyn lledaenu arferion da, ac i hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion. Caiff y defnydd o'r grant datblygu disgyblion ei fonitro'n dda er mwyn sicrhau darpariaeth bwrpasol ar gyfer y disgyblion.

Mae amrediad da iawn o adnoddau ar gael yn yr ysgol ac maent yn cael eu defnyddio'n hynod effeithiol i hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r adeilad o safon dda, ac mae'r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol cael eu defnyddio'n gelfydd i gyfoethogi profiadau dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/12/2017